Cafodd Margaret de Clare, ail ferch Gilbert a Joan, ei geni ym 1293.

Ymosododd Llywelyn ap Gruffydd ar y castell ym mis Hydref 1270 a'i losgi.

Cafodd Isabelle, merch gyntaf Gilbert ac Alice, ei geni ym mis Mawrth, 9 mlynedd ar ôl iddynt briodi.

Priododd Gilbert de Clare ag Alice de Lusignan ym 1253, pan oedd Gilbert yn 12 mlwydd oed.

Priododd Gilbert de Clare â Joan o Acre yn niwedd mis Ebrill neu ddechrau mis Mai 1290. Joan oedd merch Brenin Edward y 1af, ac roedd hi'n 26 mlwydd oed.



Etifeddodd Gilbert ystadau ei dad a theitl Iarll Caerloyw pan fu farw ei dad ym mis Gorffennaf 1262.

Ym mis Hydref 1265, fel gwobr am iddo gefnogi'r Tywysog Edward, rhoddwyd castell a theitl y Fenni i Gilbert, yn ogystal ag anrhydedd a chastell Brycheiniog. Daeth y Tywysog Edward yn Frenin Edward y 1af wedyn.

Cafodd Elizabeth de Clare, trydedd ferch Gilbert a Joan, ei geni ar 16 Medi 1295.



Pan oedd Gilbert de Clare yn 25 mlwydd oed, dechreuodd adeiladu castell Caerffili.

Dechreuodd Gilbert de Clare adeiladu castell Caerffili eto ym mis Mehefin 1271.

Gilbert hefyd oedd enw unig fab Gilbert a Joan. Cafodd Gilbert, y mab, ei eni pan oedd ei dad yn 48.

Cafodd Joan, ail ferch Gilbert ac Alice, ei geni pan oedd Gilbert yn 21 oed.

Cafodd Eleanor de Clare, merch gyntaf Gilbert a Joan, ei geni 2 flynedd ar ôl iddynt briodi, ym mis Hydref.